



**TGAU**

**3010NB0-1**

**DYDD IAU, 15 MEHEFIN 2023 – BORE**

**LLENYDDIAETH GYMRAEG**

**UNED 2: Y Nofel**

**HAEN UWCH**

**1 awr 15 munud a'ch amser estynedig**

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.

Defnyddiwch yr indecs ar dudalen 4 i ddod o hyd i'r cwestiynau ar y nofel y buoch chi'n ei hastudio.

Cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron na thestunau gosod.

(Trowch y dudalen)

## **GWYBODAETH I YMGEISWYR**

**Mae 40 marc am bob cwestiwn cyfan.  
Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn  
cromfachau ar ddiwedd y cwestiwn neu  
ran o gwestiwn.**

**Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn  
cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.**

**(Trowch y dudalen)**

<b>NOFELAU</b>	<b>TUDALEN</b>
<b>AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR (Alun Jones)</b>	<b>5</b>
<b>I BLE'R AETH HAUL Y BORE? (Eirug Wyn)</b>	<b>12</b>
<b>LLYFR GLAS NEBO (Manon Steffan Ros)</b>	<b>19</b>
<b>DIM (Dafydd Chilton)</b>	<b>26</b>
<b>YN Y GWAED (Geraint Vaughan Jones)</b>	<b>33</b>
<b>O RAN (Mererid Hopwood)</b>	<b>39</b>

## **AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR – ALUN JONES**

- 1. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.  
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**
  
- 1.1 Trafodwch pa fath o BERTHYNAS sydd rhwng Meredydd Parri a Gladys Drofa Ganol.  
SUT mae'r berthynas yn datblygu yn ystod y nofel?  
Cyfeiriwch at DDIGWYDDIADAU penodol yn eich ateb.  
Cofiwch ddyfynnu'n bwrpasol.  
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

- 1.2 Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalennau 7–11.  
SUT mae'r awdur yn creu awyrgylch o OFN yn yr olygfa hon?  
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]**
- 1.3 Ysgrifennwch YMSON MEREDYDD ar ôl i Huw Gwastad Hir ymosod arno.  
Cofiwch sôn am ddigwyddiadau a theimladau sy'n gysylltiedig â hyn.  
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]**

**[40 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

**Methai Gladys yn lân â chysgu. Yr oedd arni ofn, ofn mawr, oherwydd yr oedd y boen wedi dod yn ôl amser cinio.**

**5 Cawsai fis annymunol. Pan aethai'n wael y noson y daethai'r ferch ddieithr i'r drws nesaf, yr oedd wedi galw Doctor Griffith yn syth, ac yr oedd hwnnw wedi ei siarsio i**

**10 gymryd pethau'n ara deg, a pheidio â chynhyrfu, symud yn gyflym, chwysu, na chodi pwysau ar unrhyw gyfrif yn y byd. Dychrynasai Gladys, ac er y noson honno gofalai wneud yn**

**15 union fel y dywedasai'r meddyg, a chymryd ei thabledi'n union fel y'i cyfarwyddasid. Yn raddol, diflanasai'r boen, a daethai hithau i ddechrau teimlo'n well a mwy hyderus.**

**20 Ond yr oedd wedi newid. Yr oedd wedi colli diddordeb ym mhopeth**

**(Trowch y dudalen)**

bron, a phan wellhaodd ddigon i fynd i'r pentref i negeseua ac i ailfynychu gwasanaethau'r Eglwys, nid oedd  
**25** ganddi stremp i chwilio am feiau yn neb, na chael eu hanesion, ac nid âi i'r drafferth mwyach o felltithio hogyn Wil Parri a'i gampau; yr oedd pethau pwysicach mewn bywyd.

**30** Ers ei gwaeledd, yr oedd yn gorfod ffonio Bet Gwastad Hir bob bore i riportio. Gan mai Bet oedd ei pherthynas agosaf, heblaw am ei chyfnither hanner musgrell yn Uwch  
**35** y Traeth, yr oedd cysylltu â hi yn feunyddiol yn un o'r amodau ei bod yn cael aros gartref, ac yr oedd cael aros gartref yn bwysig iawn i Gladys; nid oedd eisiau mynd yn rhy ddibynnol ar  
**40** neb, yn enwedig wrth nad oedd ganddi blant i edrych ar ei hôl. Petai'n mynd i fethu, byddai'n wahanol wrth gwrs. Ond peth arall oedd hynny.

(Trowch y dudalen)

**45** Daliodd ei hanadl wrth i bigiad arall ddod i'w bron, a gorffwysodd ei phen yn ôl ar y gobennydd, a gadael ei cheg yn agored. Byddai'n rhaid iddi alw'r doctor ben bore fory, rhag ofn.

**50** Cododd i edrych a fyddai'n well. Pwysodd ei llaw ar y pared a cherddodd yn araf at y ffenest. Yr oedd hanner lleuad i'w weld drwy'r llenni, a symudodd Gladys fymryn arnynt iddi gael ei weld yn well.

**55** Hanner lleuad oedd yna'r noson y priododd Wil a hi.

**60** Gollyngodd y llenni'n eu holau ac aeth i ben y grisiau. Yr oedd am fynd i lawr i wneud paned a chael tabled arall. Dim ond iddi gymryd pwyll, fe fyddai'n iawn. Fe beidiai â mynd i'r Eglwys yn y bore er mwyn rhoi cyfle iddi hi ei hun orffwys. Edrychodd drwy'r ffenest ben grisiau, a theimlodd

(Trowch y dudalen)

65 ei hun yn gwegian. Gafaelodd yn dynn  
yn sil y ffenest. Ni fedrai wneud dim,  
ond edrych.

Cysgod oedd o. Cysgod yn symud.  
Cysgod dyn yn symud gyda thalcen  
70 y tŷ tua'r cefn. Gwyliodd Gladys ef yn  
symud yn araf, a'i llygaid a'i cheg yn  
agor mwy a mwy. Ni fedrai roi sgrech.  
Yna daeth siâp y dyn i'r golwg a throes  
ei ben. Yr oedd y dyn wedi troi ei ben  
75 i edrych ar gefn ei thŷ hi. O Dduw  
annwyl.

Symudodd y dyn tua chefn y tŷ,  
ac aeth i gysgod y tŷ ei hun. Yr oedd  
bron yn amhosib ei weld yn awr, ond  
80 gwyddai Gladys ei fod yno. Yno'n  
prowla. Yr oedd dyn yn prowla o  
gwmpas ei thŷ hi a hithau'n gefn nos.  
Yr oedd y dyn am dorri i mewn i'r tŷ ac  
am ei lladd a dwyn ei phethau.

85 Aeth i lawr y grisiau'n simsan,

(Trowch y dudalen)

gan afael yn y canllaw â'i dwy law.  
 Crynai ei gwefusau fel wyneb pwll o  
 ddŵr ar wynt. Yr oedd arni ofn i'r dyn  
 ei chlywed yn crynu, neu glywed ei  
 90 hanadl gythryblus. Yr oedd yn rhaid  
 iddi ffonio. Ffonio'r plismyn. Ffonio am  
 help. Ond ni feiddiai roi golau. Beth  
 petai'r dyn yn ei chlywed yn codi'r  
 ffôn, ac yn rhuthro i'r tŷ a'i lladd cyn  
 95 iddi gael drwodd?

Yr oedd arni eisiau eistedd.  
 Eistedd i lawr i ystyried. Aeth i'r gegin  
 ffrynt, ac eisteddodd yn ei chadair.  
 Diolch i Dduw bod y llenni wedi eu cau  
 100 a bod y lle bron yn hollol dywyll.

Po hwyaf yr eisteddai, mwyaf oedd  
 y cryndod a'r ofn. Ni thalai hyn ddim.  
 Penderfynodd godi i fynd i ffonio ac  
 yr oedd y boen a'i trawodd yn ei bron  
 105 yn union fel petai'r dyn cryfaf yn y byd  
 wedi ei chicio â'i holl nerth.

(Trowch y dudalen)

## **I BLE'R AETH HAUL Y BORE? – EIRUG WYN**

- 2. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.  
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**
- 2.1 Trafodwch pa fath o BERTHYNAS sydd rhwng Kit Carson a'r Indiaid. SUT mae'r berthynas yn datblygu yn ystod y nofel?  
Cyfeiriwch at DDIGWYDDIADAU penodol yn eich ateb.  
Cofiwch ddyfynnu'n bwrpasol.  
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

**2.2 Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalennau 14–18.  
SUT mae'r awdur yn creu awyrgylch o OFN yn yr olygfa hon?  
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]**

**2.3 Ysgrifennwch YMSON QUANAHA ar ddiwedd y daith hir i Bosque Redondo.  
Cofiwch sôn am ddigwyddiadau a theimladau sy'n gysylltiedig â hyn.  
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]**

**[40 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

Pan welodd Haul y Bore'r esgidiau lledr, anobeithiodd yn llwyr a gwthiodd ei phen i'r ddaear.

“Na!” Ilefodd. “Na! Na! Na!”

5 “Haul y Bore?”

Roedd breichiau yn estyn amdani.

Y llais yna! Roedd hi'n adnabod y llais. Roedd hi wedi clywed y llais o'r blaen. Gannoedd o weithiau o'r blaen.

10 Yn ceryddu, yn canmol, yn cymell ac yn cydymdeimlo. Agorodd ei llygaid a chodi'i phen. Roedd rhywun yn

penlinio wrth ei hymyl. Roedd pâr o ddwylo cryfion wedi gafael ynnddi ac

15 yn ei chodi fel baban. Llanwodd ei llygaid.

“Haul y Bore?” meddai'r llais drachefn.

Yna, agorodd y llifddorau a

20 dechreuodd Haul y Bore wylo.

“Manuelito!” Ilefodd. “Manuelito!”

(Trowch y dudalen)

25 A syrthiodd fel cadach ar fynwes ei thad. Agorodd ei cheg, ond fedrai hi ddweud dim. Ceisiodd drachefn, ond doedd dim geiriau'n dod allan. Fedrai hi wneud dim ond nadu ac wylo'i rhyddhad.

30 Amneidiodd Manuelito ar Herrero Grande. Rhoddodd Haul y Bore yn ei ofal cyn neidio ar ei geffyl.

“Estyn hi yma, Herrero! Mi awn ni dan y coed i orffwyso am ychydig iddi gael dod ati hi'i hun.”

35 Cymerodd ei ferch yn ei gôl fel baban, a chymhellodd ei geffyl tua'r coed ar lan yr afon. Doedd o ddim yn siŵr a oedd Haul y Bore wedi cael niwed ai peidio. Roedd olion gwaed ffres ar hyd ei choesau a'i breichiau.

40 Pwy bynnag oedd Haul y Bore yn ffoi rhagddo, gwell fyddai iddynt symud i ddiogelwch y coed rhag ofn

(Trowch y dudalen)

bod y perygl yn agos.

Wedi cyrraedd glan yr afon,  
 45 taenodd Manuelito groen byffalo ar y  
 llawr a rhoddodd Haul y Bore i orwedd  
 arno. Roedd hi'n dal i fudr-wylo, ond  
 roedd y gwaethaf drosodd. Estynnodd  
 y flanced oddi ar gefn ei geffyl ac wedi  
 50 ei rhoi drosti aeth â chostrel i'r afon i  
 nôl dŵr glân.

Pan ddychwelodd roedd Haul y  
 Bore yn eistedd ar y croen gyda'r  
 flanced yn dynn amdani. Roedd  
 55 hi'n crynu fel ebol newydd-anedig.  
 Estynnodd lymaid iddi, a llyncodd  
 hithau'n awchus. Tywalltodd Manuelito  
 ddŵr ar gadach ac estynnodd ei law  
 i dynnu'r flanced oddi ar ysgwyddau  
 60 Haul y Bore. Am eiliad gwasgodd  
 hithau'r flanced yn dynnach amdani  
 hi'i hun.

Agorodd y llygaid mewn ofn a

(Trowch y dudalen)

65 dychryn. Daeth braich ei thad am ei  
 hysgwyddau a'r cadach gwlyb at ei  
 thalcen i ddechrau golchi'r pridd a'r  
 baw a'r chwys.

“Mae'n olreit! Ti'n saff! Y fi,  
 Manuelito, sydd yma.”

70 Roedd y llais yn dyner a chysurlon.  
 “Rhaid i mi weld a wyt ti wedi brifo.”

75 Yn araf ildiodd hithau. Gollyngodd  
 y flanced a gorweddodd yn ôl. Roedd  
 ei thad yn dal i siarad â hi wrth olchi'i  
 chorff.

“Oes rhywle'n brifo? Oes gen ti  
 boen?”

80 Atebodd hi ddim, dim ond  
 gorwedd yno'n llipa lonydd. Gallai  
 Manuelito weld ei bod yn gleisiau byw.  
 Golchodd ei gwddf, ei hysgwyddau a'i  
 bronnau, a phan dynnodd ei sgert fe  
 welodd gnawd llipa'i stumog a'r llanast  
 oedd ar ei chluniau a brig ei choesau.

(Trowch y dudalen)

**85** Nid olion genedigaeth yn unig oedd yno.

“ 'Merch annwyl i!’” Ilefodd. “Fe gest blentyn? Fe gest hefyd ddolur!”

Yn araf, cododd hi yn ei freichiau  
**90** a'i chario at yr afon.

**LLYFR GLAS NEBO – MANON  
STEFFAN ROS**

- 3. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.  
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**
- 3.1 Trafodwch pa fath o BERTHYNAS sydd rhwng Rowenna a Siôn. SUT mae'r berthynas yn datblygu yn ystod y nofel?  
Cyfeiriwch at DDIGWYDDIADAU penodol yn eich ateb.  
Cofiwch ddyfynnu'n bwrpasol.  
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

**3.2 Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalennau 21–25.**

**SUT mae'r awdur yn creu awyrgylch o OFN yn yr olygfa hon?**

**Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]**

**3.3 Ysgrifennwch YMSON ROWENNA ar ôl i Gwion ddechrau galw.**

**Cofiwch sôn am ddigwyddiadau a theimladau sy'n gysylltiedig â hyn.**

**Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]**

**[40 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

Wnes i ddim deall yn syth. Dydi  
 gwllithod ddim yn ymddangos mewn  
 tywydd braf. Ond mi wnes i ddallt,  
 ar ôl ychydig, wrth wyllo'r gwllithod  
 5 yn llonyddu a sychu, eu hymylon yn  
 cyrllo, eu croen yn troi'n lledr.

Roedd y gwllithod wedi penderfynu  
 marw.

Edrychais i fyny ar Susan, ac  
 10 edrychodd hithau arnaf i. Roedd hi'n  
 ddynes dlws yn y ffordd dawel, lonydd  
 roedd hen ferched Saesneg crand yn  
 gallu bod. Croes fach arian ar gadwyn  
 o gwmpas ei gwddf, ei gwallt mewn  
 15 pelen sidanaidd ar ei gwegil, dwylo  
 hirion ac ewinedd byrion glân. Roedd  
 ei gŵr yn ffeind ac yn siaradus, ond  
 roedd hon – Susan Elizabeth Thorpe,  
 a aned yn Thanet ym 1943, gwraig  
 20 i David, mam i Jonathan a Peter,  
 athrawes hanes, ysgrifenyddes y WI

(Trowch y dudalen)

lleol – roedd hi'n glyfar. Yn deall mwy na phawb arall, yn ei llonyddwch tawel ei hun. A phan edrychodd Susan arna  
 25 i'r prynhawn hwnnw, a chae o wlithod meirwon sych yn britho'r prydferthwch o gwmpas ein cartrefi, roeddwn i'n gwybod.

30 'We'd better go home,' meddwn yn sydyn, wrth frysio dros y lawnt gan smalio nad oedd y creaduriaid bychain yn byrstio dan fy ngwadnau. Cydiais yn llaw fach gynnes Siôn. 'See you later.'

35 Dim ond wedi cyrraedd giât ein gardd ni oeddan ni pan dynnodd Siôn ei law yn ôl, a galw, 'Mam!' Ac fe glywais y sŵn, yn dawel i ddechrau, yn siffrwd fel llais cariad yng nghanol  
 40 y nos. Yna'n uwch, ac yn uwch, fel ffrae yn dechrau, a'r cysgodion wedyn yn cronni ar y gorwel, yn ddüwch yn

(Trowch y dudalen)

agosáu o gyfeiriad Caernarfon.

Adar.

45 Pob math o adar – gwyllanod a  
bronfreithod, piod a cholomennod  
ac adar mân. Cwmwl ohonyn nhw,  
yn ffoi tua'r de, eu hadenydd yn creu  
sŵn anadlu, yna sŵn sgwrsio, yna  
50 sŵn fel sŵn injan uwch ein pennau.  
Digon ohonyn nhw i guddio'r haul,  
a'n gwneud ni'n oer. Safodd David a  
Susan ar ganol eu lawnt, law yn llaw  
yn eu henaint, cysgodion yr ehediaid  
55 yn eu duo nhw. Codais fy mab i'm  
breichiau, er ei fod o'n rhy hen ac  
yn rhy fawr, a'i ddal o'n dynn, dynn.  
Syllodd Siôn i'r awyr, ar y siapiau tlws  
yn dianc.

60 (Y llynedd, wrth ddarllen yr Hen  
Destament eto ar ryw ddiwrnod  
glawog, hyll, cododd Siôn ei ben a  
gofyn, 'Deryn ydi colomen, yn de?  
Colomen arch Noa?')

(Trowch y dudalen)

65 'Ia.'

A dyma hen gysgod yn croesi ei wyneb, a gwneud iddo edrych fel hogyn bach eto. 'Dwi'n cofio'r holl adar yna, ers talwm, yn gadael.')

70 Pasiodd y cwmwl o adar, a diflannu ar y gorwel tua'r de. Roedd eiliad o dawelwch wedyn, a dyna pryd y digwyddodd o.

75 Cryndod a rhuo. Taran fwya'r byd. Rhywbeth blin yn llenwi'r byd, rhywbeth yn sgrechian, rhywbeth yn marw. Dwi'n meddwl mai dim ond rhyw funud wnaeth o bara, ond efallai ei fod o wedi bod yn hirach,  
80 neu'n fyrrach. Pylu'n araf wnaeth o, tawelu bob yn dipyn. Ac er bod y sŵn wedi dod o bob man, wedi llenwi'r aer a'r ddaear a'n hesgyrn, gwyddai'r pedwar ohonon ni o ba gyfeiriad  
85 y daeth y twrw – i fan'no roedd y pedwar ohonon ni'n syllu.

(Trowch y dudalen)

**Môn.**

**90** Y cwmwl wedyn yn codi yn y  
pellter, fel tywydd garw'n agosáu.  
A Susan yn galw arna i dros yr  
ardd. 'Get in the house! Now!'  
Wrth i mi redeg am y tŷ, Siôn yn  
gwingo yn fy mreichiau wrth i mi  
ei ddal o'n rhy dynn, clywais David  
**95** yn gofyn i'w wraig, 'What? What is  
it?'

A llais Susan, yn feddal fel  
awel.

'Wylfa.'

**DIM – DAFYDD CHILTON**

- 4. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.  
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**
- 4.1 Trafodwch pa fath o BERTHYNAS sydd rhwng Owain a Gwyn. SUT mae'r berthynas yn datblygu yn ystod y nofel?  
Cyfeiriwch at DDIGWYDDIADAU penodol yn eich ateb.  
Cofiwch ddyfynnu'n bwrpasol.  
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

**4.2 Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalennau 28–32.**

**SUT mae'r awdur yn creu awyrgylch o OFN yn yr olygfa hon?**

**Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]**

**4.3 Ysgrifennwch YMSON RICHARD LLOYD ar ôl darganfod bod person wedi ymosod ar Gwyn yn y farchnad anifeiliaid.**

**Cofiwch sôn am ddigwyddiadau a theimladau sy'n gysylltiedig â hyn.**

**Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]**

**[40 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

Simsanodd yr hofrennydd  
 uwchben y dec ac yna'n araf bach,  
 yn beiriant i gyd, fe ddaeth i lawr.  
 Cyffyrddodd y teiars unwaith, unwaith  
 5 eto, ac yna, fel sment yn llithro o raw,  
 roedd ar y dec. Rhedodd Owain a'i  
 dîm ato'n plygu dan bwysau eu paciau  
 a'u gynnau, a tharo a thwrw'r gwynt  
 o'r llafnau, a dringo i mewn. Roedd  
 10 dirgrynu'n rhan barhaus o fywyd milwr  
 ar y môr, ond lle'r oedd dirgrynu'r  
 Hermes yn furmur pell a allai fod yn  
 gysur ar adegau, roedd y dirgrynu  
 mewn hofrennydd yn fath o ysgwyd  
 15 roedd dyn yn teimlo'i fod prin dan  
 reolaeth. Doedd Owain erioed wedi  
 ymgylfarwyddo'n llwyr ag o.

Caeodd Owain y drws a disgwyl  
 i'r hofrennydd godi. Rhan waetha'r  
 20 codi oedd y llathen gyntaf wrth i'r  
 peilot addasu osgo'r hofrennydd.

(Trowch y dudalen)

Roedd yna bob amser ryw wegian  
 ansicr wrth symud o gadernid ongl  
 y dec i gydbwysedd yn yr awyr – ac  
 25 achosai frathiad ym mol Owain bob  
 tro. Dim ond pan fyddai'r hofrennydd  
 yn glir o'r dec, y peilot wedi agor ongl  
 y llafnau a'r peiriannau'n tynnu'n gryf  
 i gyfeiriad pendant y byddai Owain yn  
 30 gweld adfer rhywfaint ar ei hyder, a'i  
 ymysgaroedd yn dofi.

Trodd yr hofrennydd oddi wrth yr  
 Hermes a gwyliodd Owain ei onglau  
 a'i wastadeddau llwydion yn pellhau  
 35 ac yn mynd o'r golwg y tu ôl iddyn  
 nhw. Setlodd i dreulio gweddill y  
 siwrnai yn nhawelwch ei feddyliau ei  
 hun.

**Bang.**

40 Pan mae rhywbeth annisgwyl yn  
 digwydd mae'n cymryd eiliad neu  
 ddwy i feddwl dyn ddod oddi ar y

(Trowch y dudalen)

trywydd roedd yn ei rag-weld ac i  
 ddeall yr hyn sy'n digwydd. Erbyn  
 45 i feddyliau Owain a'r milwyr eraill  
 wneud hynny roedd yr hofrennydd ar  
 lwybr pen coelbren i'r môr.

Roedd y distawrwydd ar ôl  
 dwndwr yr injan yn annaearyl. Doedd  
 50 dim i'w glywed ond rhuthr yr awyr  
 heibio i gorff yr hofrennydd a rhywle,  
 ymhell i ffwrdd, llais y peilot yn galw  
 mayday. Gafaelodd y dynion yn dynn  
 yn ymylon eu seddi, eu hwynebau mor  
 55 llwyd ag yr oedd eu migyrnau'n wyn.  
 Cwypai'r hofrennydd wysg ei drwyn,  
 yn serthach ac yn serthach nes ei fod  
 yn plymio'n syth ar i lawr.

Estynnodd Owain at handlen y  
 60 drws a'i thynnu. Chwipiwyd y panel  
 metal ar agor a thrawyd tu mewn y  
 caban a'r dynion gan hyrddiad llif  
 y gwynt. Ciciodd Owain y sachau

(Trowch y dudalen)

bergen, a'r arfau a oedd wedi disgyn  
 65 ar bennau ei gilydd i flaen y caban  
 allan drwy'r drws a neidio ar eu holau.  
 Dilynodd y lleill ar ei ôl.

Trawodd y dŵr â'i draed yn gyntaf  
 a bu bron i fraw'r trawiad a'r oerni  
 70 wagu ei ysgyfaint. Aeth o dan y  
 wyneb, a chafodd ei hyrddio gan don  
 trawiad yr hofrennydd ar wyneb y môr.  
 Clywodd freichiau trwm y rotor yn  
 byrlymu heibio iddo, ar i lawr.

75 Gollyngodd wynt o'i geg ychydig  
 ar y tro a dechrau tynnu gyda'i  
 freichiau am y goleuni uwch ei ben.  
 Roedd yr oerni'n iasol.

80 Ond roedd rhywbeth yn ei  
 rwystro, yn ei dynnu i lawr. Roedd  
 harnais rhywbeth, gwn peiriant yn  
 ôl ei bwysau, wedi clymu ei hun o  
 gwmpas ei ffêr. Ciciodd ei goesau i  
 geisio'i ysgwyd i ffwrdd ond roedd yr

(Trowch y dudalen)

85 harnais, a phwysau'r gwn, yn gwrthod  
 ei ollwng. Plygodd i'w ryddhau â'i  
 ddwylo. Brwydrodd ei fysedd ag  
 ymylon tyn y strap, a llithro yn y  
 gwlybaniaeth fferllyd dros y neilon slic  
 90 di-ildio. Ble roedd ei gyllell? Gwingodd  
 yn ôl ac ymlaen fel pysgodyn ar  
 fachyn gan ymestyn ar i fyny ac yna'n  
 ôl i lawr at ei ffêr. Gwthiai'r boen yn  
 ei ben fel gwaedd yn erbyn asgwrn  
 95 ei benglog ac roedd ei ysgyfaint yng  
 ngafael dwrn haearn tyn.

Aeth ei frwydro'n fwy ac yn  
 fwy gwylt. A'r ofn yn ei fynwes yn  
 anoddach i'w reoli.

100 A'r dŵr a lapiai o'i gwmpas yn  
 oerach.

Ac yn dduach...

## **YN Y GWAED – GERAINT VAUGHAN JONES**

- 5. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.  
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**
- 5.1 Trafodwch pa fath o BERTHYNAS sydd rhwng Robin-Dewyrth-Ifan a'i Fam.  
SUT mae'r berthynas yn datblygu yn ystod y nofel?  
Cyfeiriwch at DDIGWYDDIADAU penodol yn eich ateb.  
Cofiwch ddyfynnu'n bwrpasol.  
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20 marc]**
- (Trowch y dudalen)**

**5.2 Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalennau 35–38.  
SUT mae'r awdur yn creu awyrgylch o OFN yn yr olygfa hon?  
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]**

**5.3 Ysgrifennwch YMSON MARED ar y noson cyn dweud wrth ei mam ei bod yn feichiog.  
Cofiwch sôn am ddigwyddiadau a theimladau sy'n gysylltiedig â hyn.  
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]**

**[40 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

Y noson honno bu mor hyf â gofyn  
am rywbeth i'w helpu i gysgu. Cawsai  
gynnig ganddyn nhw wythnos neu  
ragor yn ôl pan oedd mewn poen o'r  
5 driniaeth ond roedd wedi gwrthod  
yn styfnig bryd hynny am ei fod mor  
amheus o bopeth.

Yn Gymraeg y gofynnodd a  
chytunodd y nyrs-lliw-gwyn-efo-petha-  
10 glas-ar-ei-hysgwydda yn syth.

‘Dyma chi,’ meddai hi gan roi  
gwydryn bychan yn cynnwys dwy  
dabled iddo a theimlodd yntau elfen o  
fuddugoliaeth. Roedd y Gymraes fach  
15 wedi dweud y gwir.

Erbyn deg o'r gloch roedd yn dyheu  
am i'r golau ar y ward gael ei ddiffodd.

\*

\*

\*

\*

‘Brysia! Rwy't ti fel malwan!’  
Ei fam uwch ei ben a golau o'r

(Trowch y dudalen)

20 lamp yn ei llaw yn taflu'n felyn o  
dan ei gên, y grechwen yn amlygu'i  
dannedd brown a rhisgl ei chroen.  
Llygaid gorffwyll yn ddisglair  
mewn cleisiau duon.

25 'Brysia! Rhag ofn i rywun dy  
weld.'

Mae'r twll yn ddu a'r berllan i  
gyd yn wyn. Plu eira glân yn drwch  
dros bob man, y düwch yn ei lyncu  
30 wrth iddo rofio yn is ac yn is.

'Yn ddyfnach! Brysia!'

'Dwi'n claddu fy hun!'

'Eitha peth! Brysia!'

35 Hi ddylai fod yn y bedd; hi efo'i  
hwyneb melyn a'i cheg fain, front.  
Ei syniad hi oedd cael bedd ... Ond  
dy syniad di oedd y berllan, Robin!

'Tyrd, brysia! Rhag ofn i rywun  
ddod.'

40 Y düwch yn cau amdano.

(Trowch y dudalen)

**Suddo, suddo i'r pridd du. A Mam  
yn crechwenu'n fodlon.**

**'Helpwch fi! Dwi'n mygu!'**

**45 Ei hwyneb yn hir ac yn felyn  
yng ngolau'r lamp wrth iddi  
chwerthin yn lloerig. Y bedd yn  
cau.**

**'Helpwch fi! Helpwch fi!'**

**50 Rhywbeth caled dan draed, yn  
ei gynnal, yn ei wthio'n ôl.**

**'Chei di ddim dengid. Rhaid  
wynebu dy bechod.'**

**55 Llais pwy? Nid Mam! Llais  
bychan, bach. Llais babi ... plentyn  
erbyn hyn. Faint? Deuddeg oed?**

**Llais o'r benglog is dy draed!  
Penglog gwyn, gwyn yn y twll  
du, du. A'r eira'n ddisglair dros y  
berllan ... ond yn goch o gwmpas  
60 traed Mam ... yn goch o gwmpas  
dy draed di, Robin! Ac mae'r**

**(Trowch y dudalen)**

**gwaed yn llenwi'r twll du, du, yn  
boddi'r benglog fach wen, wen.**

**'Na! Naaaaaaa!'**

**65 'I had to wake you, Robin. You  
were disturbing the ward.'**

**Nyrs-dillad-gwyn a nyrs-dillad-  
gwyrdd-i-gyd yn sefyll wrth ei wely, y  
naill yn gwenu'n dosturiol a'r llall yn**

**70 gwgu'n front.**

**'Hunlla!' meddai'n ddryslyd.**

**Bu'n effro weddill y nos.**

## **O RAN – MERERID HOPWOOD**

- 6. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.  
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**
- 6.1 Trafodwch pa fath o BERTHYNAS sydd rhwng Angharad a Myng-gu. SUT mae'r berthynas yn datblygu yn ystod y nofel?  
Cyfeiriwch at DDIGWYDDIADAU penodol yn eich ateb.  
Cofiwch ddyfynnu'n bwrpasol.  
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

**6.2 Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalennau 41 –45.  
SUT mae'r awdur yn creu awyrgylch o OFN yn yr olygfa hon?  
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]**

**6.3 Ysgrifennwch YMSON ANGHARAD ar ôl gorffen ei chyfnod yn yr ysgol gynradd.  
Cofiwch sôn am ddigwyddiadau a theimladau sy'n gysylltiedig â hyn.  
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10 marc]**

**[40 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

Cnoc ddiamynedd iawn oedd hon.  
 Doeddwn i ddim ishe ateb y drws.  
 Roedd Garry'r Llaeth wedi galw ddydd  
 Sadwrn diwethaf ac roedd Dad wedi  
 5 dweud nad oedd ganddo newid i'w  
 dalu ac y dylai alw ddydd Sadwrn  
 nesaf.

Doedd Dad ddim wedi gadael  
 unrhyw arian i dalu neb. Dim arian  
 10 cinio chwaith, o ran hynny. A doeddwn  
 i ddim ishe gorfod esbonio hyn i  
 Garry.

Wrth fy mod i ar fin gofyn i  
 Myng-gu fynd i ateb y drws, daeth ei  
 15 llais o'r gegin,

‘Alli di fynd, bach? Mae nwylo i'n  
 llawn sebon.’

A lawr â fi. Cysurais fy hunan gan  
 feddwl falle mai'r postmon oedd yna.  
 20 Byddai hwnnw'n cnocio os oedd y  
 llwyth llythyrau'n rhy fawr i'w wthio  
 drwy'r drws.

(Trowch y dudalen)

**25** Gallwn weld drwy'r gwydr  
 nadreddog yn y paneli naill ochr i'r  
 drws nad Garry oedd yna.  
 Roedd dau ddyn yno. Nid y postmon  
 oedd e chwaith felly.

Doedd dim amdani ond agor y  
 drws.

**30** 'Is your Dad in?'  
 'No. Sorry. He's not.'  
 'Is your Mum in?'  
 'No. Sorry. She's dead.'  
 'Are you on your own?'

**35** 'No.'  
 'Who's with you?'  
 'Myng-gu. I mean, my  
 grandmother. Who are you?'

**40** Dau ddi-liw. Cotiau tywyll dros  
 siwtiau tywyll a sgidie du a oedd wedi  
 dechrau llwydo gan henaint. Dau'n  
 ceisio edrych yn drwsiadus er bod  
 brethyn eu dillad yn rhy rad, neu'n

(Trowch y dudalen)

45 rhy hen, neu'n rhy hen a rhad i fod yn  
drwsiadus iawn.

50 Rai blynyddoedd yn ddiweddarach,  
pan oeddwn yn y coleg yn Llundain,  
gwelais un o'r ddau hyn ar orsaf  
Paddington eto. Wnes i ddim ei  
55 adnabod yn syth. Ond wrth weld ei  
wyneb deffrodd rhyw hen deimlad  
annifyr y tu mewn i mi. Felly mae  
hi'n aml. Gweld rhywun, ac atgof am  
deimlad yn deffro cyn atgof am enw.  
60 Teimlad oer. Teimlad cynnes. Teimlad  
o ofn. Teimlad cysurus.

Teimlad o fod ishe cilio ddaeth  
drosto i pan welais i'r dyn hwnnw am  
yr eilwaith ar orsaf Paddington.

60 Doedd gweld y ddau'n cymryd  
allweddi'r Rover ddim yn cymharu  
â'u gwylio'n cario'r piano mas drwy'r  
drws ffrynt. Roedden nhw'n amlwg yn  
arbenigwyr yn y maes. Wedi hen arfer.

(Trowch y dudalen)

65 Mae'n anodd dweud beth oedd yn  
 mynd trwy feddwl Myng-gu. Y cwbl  
 ddwedodd hi nes ymlaen y noson  
 honno oedd ei bod hi'n bwysig 'cadw  
 pethau'r tŷ yn y tŷ'. Roeddwn i'n  
 70 cytuno, ac yn teimlo'n drist fod y ddau  
 ddyn di-liw wedi cymryd pethau'r tŷ o'r  
 tŷ. Roeddwn i hefyd yn teimlo'n drist,  
 bron yn grac, nad oedd Dad wedi bod  
 yma i'w hatal.

75 Pan ddaeth Myng-gu o'r diwedd i  
 garreg y drws, darllenodd bapurau'r  
 ddau ddyn di-liw, gofyn iddyn nhw  
 ailfeddwl, cyn ildio'n dawel a mynd nôl  
 i'r gegin lle roedd hi wedi datgymalu'r  
 80 ffwrn i'w sgrwbo'n lân.

Ar ôl iddyn nhw fynd, es i i mofyn  
 mwy o fagiau sbwriel. Doeddwn i ddim  
 ishe i Myng-gu lanhau'r stydi. Ac mor  
 ddistaw â phosib tynnais y poteli gwag  
 85 o'u holl guddfannau a'u rhoi yn y bag  
 du.

(Trowch y dudalen)

Roeddwn i ishe llefen. Ond yn methu.

90 A dwi'n credu falle ein bod ni'll  
dwy'n twyllo'n gilydd y prynhawn  
hwnnw. Pawb yn twyllo'i gilydd am  
flynyddoedd maith.

Myng-gu, a fi a Dad.

Myng-gu'n fy nhwyllo i a Dad.

95 Fi'n twyllo Myng-gu a Dad.

Dad yn twyllo Myng-gu. A fi.

Pob un yn twyllo'i hunan.

**DIWEDD Y PAPUR**